un dau tri / *one two three*

Themau - *Themes*

Rhifo + oed + arian. *Counting + age + money.*

Patrymau laith - *Language Patterns*

Un, dau, tri / *One, two, three*

Rhifo / Counting

0. dim	20. dau ddeg
1. un	21. dau ddeg un
2. dau	22. dau ddeg dau…etc
3. tri	30. tri deg
4. pedwar	31. tri deg un…etc
5. pump	40. pedwar deg
6. chwech	41. pedwar deg un…etc
7. saith	50. pum deg
8. wyth	60. chwe deg
9. naw	70. saith deg
10. deg	80. wyth deg
11. un deg un	90 naw deg
12. un deg dau	100. cant

Arian / *Money*
'Punt' is 'pound' and 'ceiniog' is 'penny/pence'.
Sylwch ar y ffurfiau dwy/ tair/ pedair – ffurfiau benywaidd a'r treiglad ar ôl 'un' (*ben*) dau a dwy gyda oed, arian ac enwau benywaidd.
Notice 'dwy/ tair/ pedair', the feminine forms of 2, 3 and 4, and the mutations after 'un' (fem) dau and dwy with age, money and feminine nouns.

1. punt	ceiniog
2. dwy bunt	dwy geiniog
3. tair punt	tair ceiniog
4. pedair punt	pedair ceiniog
5. pum punt	pum ceiniog
10. deg punt	deg ceiniog
20. dau ddeg / ugain punt	dau ddeg / Ugain ceiniog
100. can punt	

Faint yw bag o datws? *How much is a bag of potatoes?*
Dwy bunt saith deg ceiniog os gwelwch yn dda *£2.70 please*

Beth yw dy oed di? *How old are you?*
Tair oed dw i *I'm 3 (years old)*

Tasgau - *Tasks*

Tasg sain / *Audio task*
Llenwch y grid.
Fill in the grid.

	Tŷ 1	**Tŷ 2**
Rhif y tŷ		
Pobl yn y tŷ		
Plant yn y tŷ		
Oed y plant		
Rhif ffôn		
Cath		
Ci		

Tasg fideo / *Video task*
Llenwch y grid.
Fill in the grid.

Eitem	**Faint?**	**Eitem**	**Faint?**
bag o sglodion		banana	
pysgodyn		oren	
peint o laeth		ffrwyth kiwi	
wy		carton o sudd oren	
pecyn o ham		potel o gwrw	
iogwrt		potel o win	

Sgript Sain – *Audio Script*

Holwr: Bore da, ga i ofyn cwestiwn neu ddau os gwelwch yn dda?

Gareth: Iawn, mae pum munud gyda fi.

Holwr: Diolch. Beth yw rhif y tŷ?

Gareth: Un deg naw.

Holwr: A faint sy'n byw yn y tŷ?

Gareth: Chwech

Holwr: Faint o blant?

Gareth: Pedwar.

Holwr: Beth yw oed y plant?

Gareth: Naw mis, tair, pump a saith.

Holwr: Beth yw eich rhif ffôn os gwelwch yn dda?

Gareth: Dim, dau, naw, dau, dim, wyth, tri, pedwar, pump, chwech.

Holwr: Diolch yn fawr iawn. Dw i'n mynd drws nesa nawr.

Gareth: Does neb adre yn un deg wyth.

Holwr: O diar.

Gareth: Ga i helpu?

Holwr: Wel, diolch yn fawr iawn i chi am yr help. Dych chi'n gwybod faint sy'n byw yn y tŷ?

Gareth: Mae tair merch yn byw yn un deg wyth.

Holwr: Dim plant?

Gareth: Dim plant. Ond mae dwy gath a dau gi yna.

Holwr: Wel, diolch yn fawr i chi am yr help.

Gareth: Croeso.

Geirfa

Ga i ofyn...? – May I ask...?
does neb adre – there's no one at home

Sgript Fideo - *Video Script*

STEFFAN:	Dwi wedi bod yn siopa.
MARGED:	Gest ti bopeth?
STEFFAN:	Do. Popeth.
MARGED:	Popeth ar y rhestr.
STEFFAN:	Popeth ar y rhestr.
MARGED:	Un bag o sglodion.
STEFFAN:	Un bag o sglodion.
MARGED:	Pedwar pysgodyn. Cod.
STEFFAN:	Pedwar pysgodyn. Cod.
MARGED:	Pedwar peint o laeth.
STEFFAN:	Pedwar peint o laeth.
MARGED:	Chwech wy.
STEFFAN:	Chwech wy.
MARGED:	Dau becyn o ham.
STEFFAN:	Dau becyn o ham.
MARGED:	Pump iogwrt.
STEFFAN:	Pump iogwrt.
MARGED:	Wyth banana.
STEFFAN:	Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth banana
MARGED:	Saith oren.
STEFFAN:	Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith oren.
MARGED:	Naw ffrwyth kiwi.
STEFFAN:	Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw ffrwyth kiwi.
MARGED:	Tri carton o sudd oren.
STEFFAN:	Tri carton o sudd oren.Wyth potel o gwrw i fi… a photel o win gwyn i ti!

Atebion - *Answers*

Tasg sain / *Audio task*
Gwrandewch ar sain yr Uned a llenwch y grid.
Listen to the audio for the unit and fill in the grid.

	Tŷ 1	**Tŷ 2**
Rhif y tŷ	19	18
Pobl yn y tŷ	6	3
Plant yn y tŷ	4	0
Oed y plant	naw mis, tair, pump, saith	---------- ----------
Rhif ffôn	0292083456	----------
Cath	dim	dwy
Ci	dim	dau

Tasg fideo/ *Video task*

Eitem	**Faint?**	**Eitem**	**Faint?**
bag o sglodion	1	banana	8
pysgodyn	4	oren	7
peint o laeth	4	ffrwyth kiwi	9
wy	6	carton o sudd oren	3
pecyn o ham	2	potel o gwrw	8
iogwrt	5	potel o win	1